Arfer orau

Meithrinfa Toy Box, Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Connah

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cyd-destun

Meithrinfa ddydd gofrestredig ar dir Coleg Glannau Dyfrdwy yng Nghei Connah, Gogledd Cymru, yw Toy Box. Mae'r feithrinfa yn darparu gofal ac addysg amser llawn neu ran-amser i blant rhwng tri mis a phump oed. Adeg yr arolygiad, roedd 36 o blant 3 oed rhan-amser yn mynychu'r cylch chwarae.

Nodwyd bod **gwella ansawdd** yn arfer sy'n arwain y sector (3.2)

Beth mae'r lleoliad yn ei wneud ynglŷn â gwella ansawdd sy'n arwain y sector?

Barnwyd bod ansawdd hunanarfarnu yn y lleoliad yn rhagorol. Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng yr holl randdeiliaid ac mae'r staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u hyfforddi'n dda. Mae'r rhain yn ffactorau allweddol yn llwyddiant y lleoliad.

Mae'r hunanarfarnu yn barhaus, yn systematig ac yn ystyried safbwyntiau ystod dda o bartneriaid, yn cynnwys plant a rhieni a gofalwyr. Mae cyfathrebu rhagorol rhwng pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad yn cyfrannu at ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Caiff safbwyntiau pawb eu hystyried, a gweithredir yn unol â nhw lle bynnag y bo modd. Mae ymarferwyr, er enghraifft, yn ymgynghori â phlant ynglŷn â'r hyn y mae arnynt eisiau ei ddysgu. Mae plant yn cynnig syniadau ac awgrymiadau i gynllunio o ddydd i ddydd, yn ogystal â chynllunio tymor hwy yn rheolaidd. Mae natur gynhwysol dull y lleoliad o hunanarfarnu yn nodwedd gref ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a chysondeb profiadau dysgu'r plant a'u safonau. Mae'r cynllunio gweithredu wedi'i seilio ar wybodaeth gynhwysfawr am y lleoliad; mae'n cofnodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud a'r adnoddau y mae eu hangen er mwyn i'r newid ddigwydd.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddatblygiad proffesiynol staff. Mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen yn rheolaidd, yn cynnwys gweithdai a sesiynau galw i mewn a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Maent yn gweithio'n dda gyda swyddog cymorth yr awdurdod lleol i wella arfer ac maent yn barod i dderbyn unrhyw awgrymiadau. O ganlyniad, mae staff yn wybodus ynghylch arfer dda ac maent mewn sefyllfa dda i gwestiynu'r hyn y maent yn ei wneud a sut i wneud pethau'n well.

"Mae'r hunanarfarnu yn barhaus, yn systematig ac yn ystyried safbwyntiau ystod dda o bartneriaid, yn cynnwys plant a rhieni a gofalwyr."